# Y Ddadl Ontolegol

## Trosolwg cyflym

- Mae'r ddadl ontolegol yn ddadl a priori sy'n ceisio profi bodolaeth Duw drwy ystyr y gair 'Duw'.
- Mae'n diffinio Duw fel 'bod na ellir dychmygu dim sy'n fwy nag ef'.
- Mae hefyd:
- yn ddadl **ddiddwythol**: mae'r casgliad o angenrheidrwydd yn dilyn o'r rhagosodiadau. Os yw'r rhagosodiadau yn wir, yna rhaid i'r casgliad ddilyn.
- yn ddadl **ddadansoddol**: mae gwirionedd (neu anwiredd) datganiad dadansoddol yn cael ei bennu'n llwyr gan ystyron y geiriau a'r symbolau a ddefnyddir i'w fynegi.
- yn a **priori**: mae'n hysbys ei fod yn wir, yn annibynnol ar brofiad.

## I gefnogi'r ddadl

Sant Anselm

- Diffiniwyd Duw gan Anselm fel **'bod na ellir dychmygu dim sy'n fwy nag ef'**. Mae hyn yn golygu bod Duw yn bodoli yn y meddwl ac mewn realiti.
- Mae'n rhaid i fod o'r fath fodoli mewn realiti am fod bodolaeth mewn realiti yn fwy na hynny sy'n bodoli yn y meddwl yn unig.

**(i) Ffurf Gyntaf, dadl ddiddwythol ffurfiol:**

| | |
|---|---|
| Rhagosodiad 1 | Duw yw'r bod mwyaf posibl (na ellir dychmygu dim sy'n fwy nag ef). |
| Rhagosodiad 2 | Os yw Duw yn bodoli yn y meddwl yn unig (dim ond fel syniad), yna gellir dychmygu bod bod mwy yn bodoli yn y meddwl ac mewn realiti. |
| Rhagosodiad 3 | Byddai'r bod hwn yn fwy na Duw wedyn. |
| Rhagosodiad 4 | Felly ni all Duw fodoli fel syniad yn y meddwl yn unig. |
| **Casgliad** | Felly, mae Duw yn bodoli yn y meddwl (fel syniad) ac mewn realiti. |

**(ii) Ail Ffurf:**
- Duw yw'r bod mwyaf posibl (na ellir dychmygu dim sy'n fwy nag ef).
- Mae'n fwy i fod yn fod 'angenrheidiol' (ni all beidio â bod) na bod amodol (gall beidio â bodoli).
- Os yw Duw yn bodoli fel bod amodol yn unig, yna gellid dychmygu bod anamodol mwy.
- Byddai'r bod hwn yn fwy na Duw wedyn.
- I fod y mwyaf, felly, rhaid i Dduw fod yn anamodol.
- Mae Duw yn fod 'angenrheidiol' hefyd, gan na allai unrhyw fod arall fod wedi'i greu ac ni ellir gwneud iddo beidio â bodoli.

### Descartes

Roedd Descartes yn gwahaniaethu rhwng hanfod rhywbeth a'i fodolaeth. Roedd yn dadlau fod modd pennu beth oedd natur hanfodol rhywbeth (ei hanfod) yn annibynnol ar wybod p'un a oedd yn bodoli. Defnyddiodd enghraifft o driongl, a'i hanfod oedd tair ongl a oedd yn adio i wneud 180 gradd. Ni ellid gwahanu'r syniad o'r triongl o'r syniad o'r tair ongl. Fodd bynnag, nid yw hynny'n mynnu bod trionglau yn bodoli mewn gwirionedd.

Fodd bynnag, am y gallai Descartes ddirnad ei fodolaeth ei hun, gallai hefyd ddirnad bodolaeth bod perffaith. Pan ystyriai'r syniad o fod tra pherffaith, dadleuai fod bodolaeth yn agwedd ar berffeithrwydd. Mewn geiriau eraill, y syniad o fod tra pherffaith oedd yr achos unigryw lle'r oedd bodolaeth yn rhan o'i hanfod, ac felly'n mynnu bod bod o'r fath yn bodoli.

1. Yr wyf i'n bod.
2. Yn fy meddwl, mae gen i'r cysyniad o fod tra pherffaith.
3. Mae bodolaeth yn berffeithrwydd, felly mae bodolaeth yn rhan o'i hanfod.
4. Rhaid i fod tra pherffaith fodoli er mwyn bod yn dra pherffaith.
5. Felly, mae bod tra pherffaith yn bodoli.

### Malcolm

Datblygodd Norman Malcolm (1911-1990) ail ffurf Anselm. Roedd yn gwrthod ffurf gyntaf Anselm gan ei bod yn awgrymu bod bodolaeth yn briodwedd. Nid oedd Malcolm yn credu bod bodolaeth yn briodwedd (safbwynt tebyg i Kant). Fodd bynnag, roedd yr ail ffurf yn ymwneud â bodolaeth angenrheidiol ac roedd Malcolm yn ystyried hyn yn briodwedd ac felly nid oedd yn agored i feirniadaeth Kant.

Mae Malcolm yn osgoi iaith mawredd a ddefnyddiai Anselm, ac, yn hytrach, yn diffinio Duw fel "bod anghyfyngedig". Un nodwedd o fod anghyfyngedig fyddai bodolaeth angenrheidiol oherwydd ni all bod anghyfyngedig fod yn ddibynnol ar ddim – nid am ddod i fodolaeth nac am ddiwedd bodolaeth.

Felly, mae bodolaeth Duw naill ai'n amhosibl (gan na fyddai'n gallu cael ei ddwyn i fodolaeth gan unrhyw beth sy'n fwy aruchel nag ef ei hun) neu fod Duw yn angenrheidiol (oherwydd nid oes modd ei ddwyn i fodolaeth gan fod yn rhaid ei fod wedi bodoli erioed). Ond ni all bodolaeth Duw fod yn amhosibl gan mai'r unig beth fyddai'n ei gwneud yn amhosibl fyddai'r cysyniad fod hynny'n rhesymegol anghyson, ond nid yw hynny'n wir. Felly mae'n rhaid bod Duw yn angenrheidiol ac felly mae'n rhaid ei fod yn bodoli.

I'w trafod:

Ym mha ffyrdd y mae barnau'r ysgolheigion hyn (i) yn debyg a (ii) yn wahanol?

Pa un yw'r un fwyaf argyhoeddiadol a pham?

**Ym mha ffyrdd maen nhw'n debyg?**

- Yn gyffredin rhyngddynt mae'r ffaith eu bod yn ceisio profi bodolaeth Duw
- Mae rhai'n **ddiddwythol** – mae'r casgliad o reidrwydd yn dilyn o'r cynsail. Os yw'r cynsail yn wir yna rhaid i'r casgliad ddilyn
- Mae eraill yn **ddadansoddol** – pennir gwirionedd (neu anwiredd) datganiad dadansoddol yn llwyr gan ystyron y geiriau a'r symbolau a ddefnyddir i'w fynegi
- Maent oll yn a **priori** – gwyddys eu bod yn wir yn annibynnol ar brofiad

**Ym mha ffyrdd maen nhw'n wahanol?**

- Maen nhw'n diffinio Duw yn wahanol. Anselm – yr hyn na ellir meddwl am ei fwy. Descartes – bod hollol berffaith.
- Nid oes gan Anselm ddamcaniaeth ynghylch mawredd gwrthrychol. Mae'n debycach i fod bodoli mewn realiti yn fwy na bodoli fel syniad. Ni cheir cysyniad o fawredd llwyr gyda bodolaeth yn agwedd arno. Mae gan Descartes ddamcaniaeth ynghylch perffeithrwydd gwrthrychol absoliwt. Mae bodolaeth yn agwedd ar y cysyniad o berffeithrwydd llwyr.

## Heriau i'r ddadl ontolegol

**Gaunilo o Marmoutier**

Fe wnaeth Gaunilo ymosod ar ffurf Anselm o'r ddadl ontolegol. Mae disodli'r gair 'Duw' â'r 'ynys goll na ellir meddwl am ynys ragorach na hi' yn arwain at ddadl â'r un ffurf â dadl Anselm, gyda rhagosodiadau gwir, ac sydd eto'n arwain at gasgliad anwir:

1. Gallaf ddirnad 'ynys goll' na ellir meddwl am ynys ragorach na hi.
2. Rhaid i ynys o'r fath feddu ar bob mawredd.
3. Mae'n fwy i fodoli mewn realiti nag yn y meddwl yn unig.
4. Felly rhaid bod yr 'ynys goll' yn bodoli mewn realiti.

**Atebion i feirniadaeth Gaunilo**

1. Fodd bynnag, nid yw hyn o angenrheidrwydd yn wir. Mae Anselm yn siarad am Dduw fel 'bod na ellir dychmygu dim sy'n fwy nag ef', lle mae Gaunilo yn sôn am ynys goll, a nododd Plantinga y gallwn bob amser feddwl am ynys ragorach (e.e. un sy'n fwy o ran maint, un â mwy o goed, ac ati). Ni all ynys fod â 'mwyafswm cynhenid'.

2. Mae bodolaeth angenrheidiol yn rhan o'r cysyniad o Dduw, ond nid yw'n rhan o'r cysyniad o'r ynys goll na ellir meddwl am ynys ragorach na hi. Felly, nid oes unrhyw groesddweud wrth ddweud nad yw'r ynys yn bodoli, ond MAE yna groesddweud wrth ddweud nad yw Duw yn bodoli, gan fod hyn gyfystyr â dweud 'nad yw Duw sy'n bodoli yn bodoli'.

I'w drafod:

Yn eich barn chi, pa un o'r beirniadaethau yw'r un mwyaf argyhoeddiadol? Pam?

**Kant**

**Anghytunodd Kant â ffurf Descartes ar y ddadl ontolegol, ond mae'n berthnasol hefyd i ffurf Anselm.**

Heriodd Kant safbwynt Descartes fod bodolaeth Duw yn briodoledd angenrheidiol. Roedd yn dweud:

- Nad yw bodolaeth yn briodoledd gwirioneddol. Nid yw'n ychwanegu dim at y cysyniad.
- Yn fwy diweddar, mae Frege wedi dadlau pwynt tebyg. Dywedodd fod yna briodoleddau 'trefn gyntaf' ac 'ail drefn'. Mae'r cyntaf yn ein hysbysu o natur rhywbeth e.e. 'mae'r gath yn ddu'. Mae'r ail yn dweud rhywbeth am y cysyniadau e.e. 'mae yna lawer o gathod'.

Dadleuodd Frege fod Anselm a Descartes yn diffinio bodolaeth yn anghywir fel priodoledd trefn gyntaf ac mai traethiad ail drefn ydoedd mewn gwirionedd. Mae bodolaeth yn briodwedd cysyniad nid gwrthrych. Felly nid yw cadarnhad bodolaeth yn ddim mwy na gwadu'r rhif sero. Nid yw bodolaeth yn rhywbeth y gellir ei ychwanegu neu ei ddidynnu oddi wrth rywbeth.

Nid ydym yn ychwanegu unrhyw beth pan ydyn ni'n datgan ei fod yn 'bodoli'. Yn y frawddeg 'mae Duw yn bodoli', mewn gwirionedd ,y gwrthrych yw 'y cysyniad o Dduw' ac ystyr y priodoledd 'bodoli' yw bod 'y cysyniad o Dduw yn berthnasol i rywbeth.' Nid yw bodolaeth yn briodwedd.

- Nid yw'r hyn sy'n real yn cynnwys dim mwy na'r hyn sydd mewn gwirionedd yn bosibl, felly ni wneir cysyniad yn fwy perffaith (neu'n fwy aruchel) trwy ychwanegu realiti.

Roedd beirniadaeth arall gan Kant yn anghytuno â ffurf Descartes o'r ddadl ontolegol. Roedd yn ymwneud â gwrthod gwrthrych a'r priodoledd hefyd:

- Os oes gennych chi driongl, rhaid bod gennych dair ongl.
- Ond nid yw'n anghyson gwrthod y triongl a'r tair ongl.
- Os nad oes gennych chi driongl, yna nid oes gennych chi dair ongl.

- Yn yr un modd, os nad oes Duw, yna nid oes unrhyw fod sydd â bodolaeth angenrheidiol
- Os yw Duw yn bodoli bydd ganddo fodolaeth angenrheidiol, ond nid yw'n anghyson dweud nad oes gan gysyniad o'r fath fodolaeth.

**Atebion i feirniadaeth Kant**

1. Mae bodolaeth angenrheidiol yn briodwedd o analluu i gael ei gynhyrchu neu ei lygru

2.Dadleuodd Stephen Davis fod bodolaeth yn elfen gynhyrchiol fawr gan fod bodolaeth arian mewn gwirionedd yn hytrach na'r cysyniad o arian yn fy meddwl yn unig, yn fy ngalluogi i bwrcasu eitemau real yn y byd go iawn.

Geiriau allweddol

Dadl ddiddwythol – dadl lle, os yw'r rhagosodiadau yn wir, yna rhaid bod y casgliad yn wir.

A priori – cyn cael profiad.

Priodoledd – rhywbeth sy'n ychwanegu at ein cysyniad o'r testun.

Bod angenrheidiol – bod y mae ei anfodolaeth yn amhosibl yn rhesymegol. Mae hyn yn wahanol i'r defnydd cosmolegol sy'n cyfeirio at reidrwydd ffeithiol

Bod amodol – bod nad oes angen iddo fod, a allai fod wedi bod yn wahanol, rhywbeth sydd â dibyniaeth.

Dadansoddol – datganiad lle mae'r rhagosodiad wedi'i gynnwys yn y testun

Synthetig – datganiad lle nad yw'r rhagosodiad wedi'i gynnwys yn y testun.

Hanfod – natur hanfodol rhywbeth.

Ontolegol – yn ymwneud â natur bodolaeth.

## Cwestiynau ar y ddadl ontolegol

1. Enwch 5 athronydd/ysgolhaig sy'n gysylltiedig â'r ddadl ontolegol A dywedwch p'un a yw bob un ohonynt yn cefnogi neu'n herio'r ddadl.

2. Esboniwch y gwahaniaeth rhwng
   i. Dadl anwythol a dadl ddiddwythol.
   ii. Diffiniad Anselm o Dduw a diffiniad Descartes o Dduw.
   iii. Dadl Anselm a dadl Descartes.

3. 'Ymddengys bod dadl ontolegol Anselm yn honni bod "Duw yn bodoli" yn osodiad dirfodol dadansoddol.' Esboniwch beth mae hyn yn ei olygu.

4. Esboniwch pam mai'r ddadl ontolegol yw'r unig ddadl glasurol dros fodolaeth Duw a allai fod yn brawf fod Duw yn bodoli.

5. Mae llawer o athronwyr yn dadlau nad yw gosodiadau ynglŷn â bodolaeth yn ddadansoddol ond yn hytrach yn synthetig ac yn damodol. Esboniwch, gan roi eich rhesymau:
   i. beth maent yn ei olygu, a
   ii. p'un a ydych yn cytuno â nhw.

6. Pa rai o'r canlynol sy'n fydoedd posibl? Rhowch resymau i gefnogi eich ateb.
   i. Byd lle mae Colin a Simon yn dalach na'i gilydd ar yr un pryd.
   ii. Byd lle mae Aston Villa yn ennill Cwpan y Cynghrair Pêl-droed.
   iii. Byd lle mae Gareth Edwards yn Frenin Cymru.

7. Ysgrifennwch ateb i'r cwestiwn:
   'Mae i ddadl ontolegol Descartes dros fodolaeth Duw fwy o gryfderau na gwendidau.' I ba raddau ydych chi'n cytuno?

## Atebion

### 1.

Anselm – yn cefnogi
Descartes – yn cefnogi
Malcolm – yn cefnogi
Gaunilo – yn herio
Kant – yn herio

## 2.

i. Gall dadleuon anwythol ddarparu cefnogaeth i'r casgliad tra gall dadleuon diddwythol ddarparu prawf absoliwt ar gyfer casgliad. Mewn dadl anwythol, os yw'r holl ragosodiadau yn wir yna gallai'r casgliad ddal i fod yn anwir, ond mewn dadl ddiddwythol, os yw'r holl ragosodiadau yn wir, yna rhaid bod y casgliad yn wir hefyd.

ii. Anselm – bod na ellir dychmygu dim sy'n fwy nag ef. Descartes – bod tra pherffaith.

iii. Nid oes gan Anselm unrhyw theori o fawredd gwrthrychol absoliwt. Yn hytrach, ei theori yw bod bodoli mewn realiti yn fwy na bodoli fel syniad. Nid oes unrhyw gysyniad o fawredd llwyr y mae bodolaeth yn agwedd arno. Mae gan Descartes theori o berffeithrwydd gwrthrychol absoliwt. Mae bodolaeth yn agwedd ar y cysyniad o berffeithrwydd llwyr.

## 3.

Mae bodolaeth yn rhan o'r cysyniad o Dduw. Nid yw'r priodoledd 'bodoli' yn cynnwys unrhyw wybodaeth newydd, gan fod y priodoledd wedi'i gynnwys yn y testun. Felly, mae'n osodiad dadansoddol sy'n ymwneud â bodolaeth.

## 4.

Hon yw'r unig ddadl ddiddwythol, a dim ond dadleuon diddwythol sy'n cynnig prawf athronyddol. Dim ond tebygolrwyddau y mae dadleuon anwythol yn eu cynnig.

## 5.

i. Mae synthetig yn golygu nad yw'r priodoledd wedi'i gynnwys yn y testun ac mae amodol yn golygu nad oes unrhyw angenrheidrwydd. Felly, gall fod bodolaeth gan Dduw neu efallai nad oes bodolaeth gan Dduw.

ii. Os ydych chi'n meddwl fod 'Mae Duw yn bodoli' yn ddadansoddol, yna mae'n debyg eich bod yn meddwl naill ai fod Duw yn achos arbennig o osodiad dirfodol dadansoddol neu mae yna enghreifftiau o osodiadau dirfodol dadansoddol.
Os ydych yn meddwl ei fod yn synthetig, yna mae'n debyg eich bod yn meddwl fod y ddadl ontolegol yn methu.

## 6.

Dim ond yr un cyntaf sydd ddim yn fyd posibl am ei fod yn rhesymegol anghyson. Mae'r lleill yn fydoedd posibl gyda graddau amrywiol o debygoliaeth!

## 7.

Gwiriwch yn eich ateb:

i. eich bod – wedi nodi'r cryfderau a'r gwendidau; wedi trafod eu pwysoliadau cymharol; wedi dod i ryw gasgliad; wedi cyfiawnhau'r casgliad hwnnw drwy ddadl resymegol.

ii. NAD ydych– wedi ymarfer y ddadl ontolegol; wedi rhestru'r cryfderau mewn un paragraff a'r gwendidau mewn paragraff arall heb unrhyw drafodaeth ynglŷn â'u pwysoliadau cymharol; wedi rhoi casgliad nad yw wedi'i gyfiawnhau'n glir.